# CYNGOR CYMUNED LLANWINIO COMMUNITY COUNCIL

Cynhaliwyd cyfarfod o Gyngor Cymuned Llanwinio nos Fercher y 1af o Fai 2024 am 8.00pm yn Neuadd Llanwinio.

**PRESENNOL**: Cynghowyr Iori Saer (Cadeirydd), Dorian Lewis, Huw James a Wyn Evans

**YMDDIHEURIADAU**: Cynghorwyr Sarah Pask & Christopher Smoothy ac Y Cynghorydd Sir Jean Lewis

**CYMHERWYD Y COFNODION GAN Y CLERC**: Liza Jones

**2: COFNODION**: Darllenwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 6ed o Fawrth 2024, fe'u derbyniwyd a'u cofnodi fel rhai cywir.

**3. DATGAN BUDD:**

**4: MATERION YN CODI:**

Nid oedd y gwaith o osod offer chwarae newydd yn y parc wedi ei gwblhau oherwydd y tywydd garw.
Roedd y Cynghorydd Smoothy wedi bod yn trafod y r Arolwg Cymunedol gyda'r clerc ond roedd angen gwenud gwith ychwanegol cyn byddai'n barod i'w ddosbarthu.
Byddai'r Cinio Blynyddol yn Llety Cynin ar y 10fed o Fai.

**5: GOHEBIAETH**

A – Roedd y CYnghorydd Geraint Evans wedi danfon ebost yn rhoi ei ymddiswyddiad fel Cynghorydd. Nododd y Cynghorwyr eu siom am golli Cynghorydd mor ymroddgar a dymunent nodi eu diolch am ei holl waith called fel clerc a Chynghorydd.
B – Roedd y cais am arallgyfeirio'r llwybr cyhoeddus ym Mlaenllain yn mynd yn ei flaen.
C – Derbyniwyd gwahoddiad i fynychu Rali C Ff I Sir Gâr ar FAes y Sioe Nantyci.
CH – Roedd Archwilwyr Cymeu wedi cwblhau yr archwiliad am 2021-2022. Darllenwyd a trafodwyd cynnwys yr adroddiad. Roedd y clerc wedi cyhoeddu'r adroddiad ar wefan y Cygnor ac wedi gosod copi ym mlwch arddangos Llanwinio. Roedd un cais wedi dod am gopi o'r adroddiad ac roedd y clerc wedi postio'r wybodaeth i'r ymgeisydd.
D – Roedd manylion hanesyddol y tir roedd y Cyngor yn rhentu allan wedi cael eu casglu ac wedi eu cyflwyno i'r cyfreithwyr.

**6: DERBYNIADAU:**
Llog £36.59
C Robinson – Rhent £313.00
Blaenllain – Rhent £10.00
Praesept £2000.00
Wayleave £36.40

G E & J A James – Rhent £869.00
R Jackson – Rhent £323.75
L Agoust – Cais am ddogfennau Archwiliad £4.00

**7: BILIAU:**

| | |
|---|---|
| Liza Jones – Cyflog clerc Mawrth & Ebrill | £560.00 |
| CaTHEM – Taliad treth Cyflog | £390.00 |
| Un Llais Cymru – Aelodaeth | £84.00 |
| Clear Councils – Yswiriant | £824.22 |
| ICO – Aelodaeth | £35.00 |
| Rosemarie Davies – Archwilydd Mewnol | £67.50 |
| Vision ICT – Ffi dwyflynyddol parth | £78.00 |
| Vision ICT – Cynnal y wefan 2024-25 | £324.00 |
| D M Payroll services 2024-25 | £120.00 |
| CSC – Goleuadau Stryd – trydan a cynnal a chadw | £989.86 |

Roedd Aelodaeth ICO wedi cael ei adnewyddu drwy ddebid uniongyrcholar 30/4/24. Awdurdodwyd yn anfonebau I'r clerc eu talu drwy bancio ar-lein.

**8: ADRODDIAD ARIANNOL:**

| | |
|---|---|
| Cyfrif Busnes | £35,463.51 |
| Cyfrif Trysorydd | £ 6,147.80 |
| **Cyfanswm o** | **£41,611.31** |

Trafodwyd y cyfrifon blynyddol a oedd wedi cael eu cwblhau ac eu archwilio gan yr Archwilydd Mewnol Rosemarie Davies. Cytunwyd y cyfrifon i'w cyflwyno i Archwilwyr Cymru.

**9: CYNLLUNIO:**
Er nad oedd unrhyw gais cynllunio newydd, codwyd pryder am gais blaenorol PL/06403 – deunydd a cypyrddau telathrebu ar dir yn Llanwio SA33 6DP. Er fod y Cyngor Cymuned eisioes wedi rhoi gwrthwynebiad I mewn I'r cais, roedd yn debyg fod y cynllunio yn mynd yn ei flaen. Roedd y Cynghorwyr o'r farn yn unfrydol dylid wrthwynebu hyn eto gan ofyn i'r clerc gysylltu gyda Clarke Telecom a Cyngor Sir Caerfyrddin gan gopi I mewn Mr Giles Cowley ac y Cynghorydd Sir Jean Lewis.

**10: Unrhyw fater arall:**

Roedd cyfarfod ar y cyd wedi bod rhwng Cyngor Cymuned Llanboidy a Chyngor Cymuned Llanwinio i drafod y bwriad o blannu coed dros Fferm Llechwedd gan Ymgynghorwyr Tilhill. Cynhaliwyd y cyfarfod ar y 1af o Fai 2024 am 6.00yh yn Neuadd y Farchnad Llanboidy gyda'r Cynghorwyr Iori Saer, Huw James & Wyn Evans yn cynrychioli Llanwinio ynghlyd a'r clerc. Cytunwyd yn unfrydol i weithio gyda Cyngor Cymuned Llanboidy i wrthwynebu'r cynlluniau a lleisio barn. Argymhellwyd i drefnu cyfarfod agored yn Neuadd Y farchnad LLanboidy gyda cynrychiolwyr o Tilhill Consultants, Cornfield Enterprises o Rydychen (tir feddianwyr newydd) ac Aelodau Senedd. Roedd Llanboidy eisioes wedi creu deiseb a cytunwyd i

gylchredeg un tebyg yn Llanwinio. Byddai clercod y ddau gyngor Cymuned yn cyd-weithio ar hyn.

Roedd Pwyllgor Llanwino wedi codi digon o arian i brynu diffibriliwr i'r Neuadd. Gofynwyd i'r clerc gwenud y trefnidau fel a wnaethpwyd yng Ngwmfelinmynach,

Codwyd pryder am y tyllau niferus ar yr heol rhwng Passby a Pantyblaidd, ac hefyd ger Woodlands, Cwmfelinmynach. Roedd achos o dipio anghyfreithlon ar y cyffordd ger fferm Fronfelin, Byddai'r clerc yn adrodd yr achosion yma.

**Cynhelir y cyfarfod cyffredinol nesaf nos Fercher y 3ydd o Orffennaf 2024 am 8:00pm yn Neuadd Gymunedol Llanwinio.**